

At: Barti on â Diddordeb

Dyddiad: 17 Mehefin 2003

Cyfeirnod: MSF 270

YMGYNGHORIAD

Strategaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar Reoli Campylobacter mewn cywion ieir

Annwyl Syr / Madam

Mae'r llythyr hwn yn gofyn am eich safbwyntiau a'ch sylwadau ysgrifenedig ar Strategaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar Reoli Campylobacter mewn Cywion Ieir. Mae'r ymgynghoriad yn cwmpasu Cymru, Lloegr a'r Alban. Ni fyddwch yn derbyn rhagor o ddogfennau gan ASB Cymru na'r Alban a dylech ddarparu ymatebion i'r swyddog cyswllt a nodir yn y llythyr hwn. Bydd ASB Gogledd Iwerddon yn cynnal ymgynghoriad ar wahân.

Dylid anfon ymatebion erbyn 8 Medi 2003.

Dylid anfon yr holl sylwadau a safbwyntiau at:

Mr Ian Smith
Microbiological Safety Division
Food Standards Agency
Room 816c Aviation House
125 Kingsway
Llundain
WC2B 6NH

Ffôn: 020 7276 8975
Ffacs: 020 7276 8907

Neu ar e-bost at: ian.smith@foodstandards.gsi.gov.uk

Mae'r Asiantaeth wedi datblygu, ac yn dechrau gweithredu, strategaeth i reoli Campylobacter mewn cywion ieir a fagwyd ar gyfer cig (brwyliad) yn y DU. Nod yr ymgynghoriad hwn yw dosbarthu'r strategaeth yn eang i holl fudddeiliaid y gadwyn gynhyrchu dofednod a chael sylwadau i helpu i weithredu a datblygu'r strategaeth ymhellach.

Targed yr ASB yw lleihau'r achosion o glefydau a gludir gan fwyd 20% erbyn mis Ebrill 2006. *Campylobacter* yw'r her fwyaf o ran cyrraedd y targed hwn. Er bod pobl yn gallu dod i gysylltiad â'r organeb hon mewn nifer o ffyrdd gwahanol mae yna dystiolaeth gref i ddangos mai trwy fwyta cyw iâr y bydd hynny'n digwydd fel rheol.

Gellid cymryd camau ym mhob rhan o'r gadwyn fwyd i leihau'r risg sy'n gysylltiedig â chyw iâr a bydd disgwyl i fentrau'r Asiantaeth ar gyfer gwella hylendid ceginau masnachol a domestig a hyrwyddo HACCP leihau'r nifer o achosion o salwch. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod angen gweithredu hefyd mewn cyfnodau cynharach yn y gadwyn fwyd i leihau'r nifer sy'n cyrraedd y gegin ac i leihau'r risgiau i'r defnyddiwr. O ganlyniad, mae'r Asiantaeth wedi datblygu strategaeth i leihau achosion o *Campylobacter* yn sylweddol mewn cywion ieir a fagwyd i'w gwerthu yn y DU, gan ystyried mesurau rheoli posib y gellid eu gweithredu ar y fferm neu yn y gwaith prosesu.

Mae'r strategaeth yn cwmpasu cywion ieir a gynhyrchwyd yn ddwys dan do, er bod sylw'n cael ei roi hefyd i systemau cynhyrchu eraill (organig ac awyr agored). Mae holl brif fudd-ddeiliaid y gadwyn gynhyrchu cywion wedi bod yn rhan o'r broses o ddatblygu'r strategaeth ar adegau gwahanol.

Eich sylwadau

Hoffwn dderbyn eich safbwyntiau a'ch sylwadau erbyn **8 Medi 2003** fan bellaf – nodwch fanylion y sefydliad rydych yn ei gynrychioli yn eich ymateb. Yn ogystal â sylwadau cyffredinol ar y Strategaeth byddai'r Asiantaeth yn gwerthfawrogi unrhyw wybodaeth am:

- Y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu mesurau bioddiogelwch cyffredinol a mesurau a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer rheoli *Campylobacter*.
- Data monitro, a chostau posib casglu data o'r fath, a allai helpu i weld pa mor gyffredin yw *Campylobacter* ym mrwyliaid y DU.
- Canlyniadau unrhyw astudiaethau ymyrryd sy'n gwerthuso mesurau i reoli *Campylobacter* mewn cywion sy'n cael eu gwerthu.

Ychydig o wybodaeth sydd gan yr Asiantaeth am y meysydd hyn, ac er bod data yn cael ei gasglu trwy ymchwil gyfredol, bydd gwybodaeth ychwanegol yn fuddiol i helpu i ddatblygu'r gwaith.

Gellir anfon neu e-bostio ymholiadau ynghl n â'r llythyr hwn i'r cyfeiriad a nodir ar frig y llythyr neu fe ellir gwneud ymholiadau dros y ffôn. Os oes unrhyw fanylion cysylltu a ddefnyddiwyd i anfon y llythyr hwn wedi newid, gadewch i ni wybod.

Cyhoeddi data personol

Nodwch fod yr holl safbwyntiau/sylwadau a dderbynnir gan yr Asiantaeth yn cael eu darparu i'r cyhoedd. Os NAD ydych am i'ch sylwadau gael eu gwneud yn gyhoeddus, nodwch hyn trwy gwblhau'r

ffurflen gwarchod data amgaeëdig yn llawn a'i dychwelyd gyda'ch ymateb

Gwybodaeth bellach

Mae rhestr o'r partïon â diddordeb sy'n derbyn y llythyr hwn ar gael ar gais.

Mae croeso i chi roi'r ddogfen hon i unrhyw un sydd â diddordeb yn y mater hwn, neu fe allwch chi roi eu manylion i ni er mwyn i ni anfon copiâu atynt. Os ydych wedi derbyn y pecyn ymgynghori hwn ar ran sefydliad, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddosbarthu'r wybodaeth i'ch aelodau fel y bo'n briodol.

Mae'r llythyr / pecyn ymgynghori hwn ar gael ar ein gwefan sef www.food.gov.uk, lle bydd crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd yn cael ei gyhoeddi maes o law.

Paratowyd yr ymgynghoriad hwn yn unol â Chod Ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar Ymgynghori Ysgrifenedig, sydd ar y wefan www.consultation.gov.uk Am fanylion, cysylltwch ag Ian Smith, Adran Diogelwch Microbiolegol, yr Asiantaeth Safonau Bwyd (020 7276 8975).

Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ysgrifenedig hwn.

Yn gywir

Linden Jack

Adran Diogelwch Microbiolegol

Amgaeëdig

Strategaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer Rheoli Campylobacter mewn Cywion leir

Cyhoeddi data personol



A fyddech cystal â nodi y bydd yr holl ymatebion fel arfer ar gael i'r cyhoedd eu gweld yn llawn.

Gall cyhoeddi ymatebion yn llawn gynnwys data personol (megis eich manylion cyswllt / cyfeiriad)

Nodwch a ydych yn caniatáu i ddata personol o'r fath gael ei gyhoeddi fel rhan o'r ymateb a dychwelwch y ffurflen hon er mwyn nodi eich bwriad.

- Rwy'n Cytuno*
- NID wyf yn Cytuno*

ENW LLAWN

CYFEIRIAD LLAWN

.....

.....

Os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiad, byddwn yn cymryd eich bod yn rhoi caniatâd i'r Asiantaeth gyhoeddi'r manylion.

Nodwch hefyd y gall yr Asiantaeth gyhoeddi unrhyw fanylion o'r fath os ydynt yn angenrheidiol er mwyn iddi gyflawni ei swyddogaethau.

Os oes gennych unrhyw bryderon am Warchod Data, cysylltwch â Kay Wolf (Rheolwraig Cofnodion yr ASB) yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd/ Food Standards Agency, Aviation House (Room 115B), 125 Kingsway, Llundain WC2B 6NH (Ffôn: 020 7276 8194) neu anfonwch ebost at: kay.wolf@foodstandards.gsi.gov.uk.

Am ymholiadau mwy cyffredinol, cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth www.dataprotection.gov.uk (Ffôn: 01625 545745).

**STRATEGAETH YR
ASIANTAETH
SAFONAU BWYD AR
REOLI
CAMPYLOBACTER
MEWN CYWION IEIR**

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'n rhaid i'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) fynd i'r afael â *Campylobacter* os yw am gyflawni'r targed o leihau'r achosion o glefydau a gludir gan fwyd 20% erbyn mis Ebrill 2006. Mae'r organeb hon yn gyfrifol am dros 50,000 achos o salwch bob blwyddyn a chredir bod cyfran fawr o'r achosion hyn yn cael eu cludo gan fwyd. Mae yna dystiolaeth gref i awgrymu mai cyw iâr yw'r ffynhonnell fwyd sy'n bennaf gyfrifol am hyn, a disgwylir y byddai lleihau lefelau *Campylobacter* mewn cywion ieir yn arwain at leihau'r nifer o achosion o *Campylobacter* mewn pobl.

Gellid cymryd camau ym mhob rhan o'r gadwyn fwyd i leihau'r risg sy'n gysylltiedig â chyw iâr, a disgwylir i waith arall yr Asiantaeth, fel yr Ymgyrch Hylendid Bwyd barhaus a hyrwyddo HACCP yn y sector cynhyrchu bwyd, leihau'r achosion o salwch. Fodd bynnag, gan fod dros 50% o gywion ieir wedi'u halogi, a bod gan *Campylobacter* ddos heintus isel, mae'n amlwg bod angen gweithredu yn ystod camau cynharach y gadwyn fwyd i leihau'r nifer sy'n cyrraedd y gegin.

Amcan cyffredinol y strategaeth yw **lleihau presenoldeb *Campylobacter* yn sylweddol mewn cywion sy'n cael eu magu ar gyfer eu gwerthu yn y DU.** Y prif ganolbwynt ar gyfer 2003 i 2006 fydd gweithredu ar ffermydd; gyda gweithgareddau'n cael eu seilio ar ymgyrch i wella bioddiogelwch ar ffermydd cywion ieir dwys (adar mewn cwt). Bydd yr ymgyrch yn mynd i'r afael â materion fel golchi dwylo a mynediad i'r cytiau magu a rhoddir sylw arbennig i'r mesurau hynny a allai gael effaith benodol ar *Campylobacter*. Bydd yr ymgyrch hefyd yn ceisio sefydlu dulliau cyfathrebu effeithiol â ffermydd dofednod.

Bydd camau gweithredu'n cael eu cymryd yn y lladd-dy hefyd (y gwaith prosesu), gyda gweithredu a gorfodi gweithdrefnau wedi'u seilio ar egwyddorion HACCP. Er nad oes mesurau rheoli *Campylobacter* penodol i'w cael ar gyfer y rhan hon o'r gadwyn fwyd ar hyn o bryd, mae'n debyg y bydd

rhai ar gael yn y dyfodol a bydd gwaith yr Asiantaeth ar gyflwyno HACCP yn darparu dull i sicrhau bod y diwydiant yn ystyried y mesurau hyn.

Bydd y cyfnod cychwynnol o 3 blynedd yn gosod y sylfeini ar gyfer rheoli *Campylobacter* yn gynyddol. Trwy sicrhau bod pob fferm yn cyrraedd safon bioddioegelwch priodol, disgwylir lleihad yn nifer y brwyliaid sy'n profi'n positif am *Campylobacter*. Dylai hyn effeithio ar nifer yr adar halogedig sy'n gadael y lladd-dy, ac felly ar lefelau salwch sy'n gysylltiedig â *Campylobacter*, a gallai arwain at ddewisiadau eraill posib ar gyfer gwella mesurau rheoli yn y dyfodol y gellir eu cyflwyno trwy'r llwybr HACCP. Er enghraifft, gall gynyddu ymarferoldeb profi ac amseru brwyliaid, fel bo brwyliaid negatif yn cael eu lladd cyn rhai positif, neu gyfeirio brwyliaid positif ar gyfer triniaeth wres, rhewi, neu dechnegau eraill a fydd yn lleihau lefel halogiad *Campylobacter* mewn cig dofednod.

Agwedd bwysig arall fydd gwerthuso'r strategaeth a bydd yr Asiantaeth yn sefydlu system i asesu ei heffeithiolrwydd.

1. CYFLWYNIAD

Cefndir

1.1 *Campylobacter* yw'r her fwyaf i'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) os yw am gyrraedd y targed a osododd iddo'i hun sef lleihau'r achosion o glefydau a gludir gan fwyd 20% erbyn mis Ebrill 2006. Yng Nghymru a Lloegr, amcangyfrifir bod *Campylobacter* yn gyfrifol am 27% o'r holl achosion o glefydau a gludir gan fwyd a bod bron i hanner yr achosion hynny yn arwain at ymweliad â Meddyg Teulu. Er ei bod hi'n ymddangos bod nifer yr achosion o *Campylobacter* a nodwyd trwy adroddiadau labordai yn dechrau gostwng, mae yna dros 50,000 o adroddiadau labordai bob blwyddyn o hyd, sy'n cyfrif am dros dri chwarter o'r adroddiadau sy'n sail i farnu cynnydd yr Asiantaeth wrth geisio cyrraedd y targed. Credir bod cyfran fawr o'r achosion hyn yn cael eu cludo gan fwyd, ac er bod nifer o fwydydd wedi'u cysylltu â haint *Campylobacter* mae yna dystiolaeth gref i ddangos mai'r brif ffynhonnell fwyd yw cyw iâr. Mae amcangyfrifon yn seiliedig ar leihad mewn achosion yn gysylltiedig ag argyfwng deuocsin gwlad Belg yn awgrymu y gallai cyw iâr fod yn ffynhonnell i o leiaf 40% o achosion.

1.2 Mae'r angen i reoli *Campylobacter* mewn cywion ieir wedi'i gydnabod ers llawer o flynyddoedd. Derbyniodd y mater sylw mewn dau adroddiad gan y Pwyllgor Ymgynghorol ar Ddiogelwch Microbiolegol Bwyd (ACMSF)¹ ac mae wedi bod yn destun llawer o ymchwil a gyllidwyd gan y Llywodraeth². Er hyn i gyd, mae gwaith ymchwilio wedi dangos fod dros 50% o gywion ieir sydd ar werth yn y DU yn cynnwys *Campylobacter*³ ac mae'r wybodaeth gyfyngedig

¹ 1. Adroddiad ar *Salmonella* mewn wyau (1993)

2. Adroddiad ar gig dofednod (1996)
http://archive.food.gov.uk/dept_health/archive/acmsf.htm

² http://www.food.gov.uk/science/research/research_archive/pubfund/microbiosafe/campylobacter.html

³ <http://www.food.gov.uk/multimedia/webpage/111802>

sydd ar gael gan ymchwil barhaus yr Asiantaeth yn awgrymu bod o leiaf 50% o frwyliaid wedi'u halogi.

1.3 Gellid cymryd camau ym mhob rhan o'r gadwyn fwyd i leihau'r risg sy'n gysylltiedig â chyw iâr, a disgwylir i waith arall yr Asiantaeth, fel yr Ymgyrch Hylendid Bwyd barhaus a hyrwyddo HACCP yn y sector cynhyrchu bwyd, leihau'r nifer o achosion o salwch. Fodd bynnag, gan fod dros 50% o gywion ieir wedi'u halogi, yn aml gyda dros 10,000 o organebau fesul aderyn, a bod gan *Campylobacter* ddos heintus isel, mae'n amlwg fod angen gweithredu yn ystod camau cynharach y gadwyn fwyd i leihau'r nifer sy'n cyrraedd y gegin.

Amcan y Strategaeth

1.4 Mae strategaeth yr Asiantaeth ar gyfer rheoli *Campylobacter* mewn cywion ieir felly'n canolbwyntio ar fesurau y gellir eu gweithredu ar y fferm ac yn y lladd-dy (gwaith prosesu). Yr amcan gyffredinol yw **lleihau presenoldeb *Campylobacter* yn sylweddol mewn cywion sy'n cael eu magu ar gyfer eu gwerthu yn y DU**. Mae hyn yn ystyried safbwynt ACMSF, y mae'r Asiantaeth yn cytuno ag ef, sef bod mesurau ar gael i leihau *Campylobacter* mewn brwyliaid. Mae hefyd yn cydnabod nad oes gennym y cyfrwng i gael gwared â *Campylobacter* o gywion ieir ar sail y wybodaeth sydd gennym am yr organeb ar hyn o bryd, er y gallai hyn fod yn bosibilrwydd ar gyfer y dyfodol.

1.5 Ar hyn o bryd, nid oes gan yr Asiantaeth sail gadarn dros osod targed ar gyfer lefel lleihau neu ddyddiadau ar gyfer cyflawni hyn. Mae yna ansicrwydd o hyd am y ffordd orau i reoli *Campylobacter* mewn cywion ieir, ac er bod modd cymharu â'r amser a gymerwyd i fynd i'r afael â *Salmonella* (10-15 mlynedd), roedd ystod ehangach o fesurau ar gael i reoli'r organeb honno (e.e. mesurau rheoli yn y sectorau bridio a bwyd anifeiliaid). Fodd bynnag, os gweithredir y mesurau rheoli a amlinellir yn y strategaeth hon, credir y bydd lefelau *Campylobacter* yn dechrau disgyn yn y 3 blynedd nesaf. Dylai hyn effeithio ar achosion o salwch, gan fod diwydiant y DU yn cynhyrchu dros 800,000 o gywion ieir y flwyddyn (gyda'u hanner o leiaf wedi eu halogi),

byddai lleihad cymharol fychan mewn lefelau *Campylobacter*, 5% dyweder, yn atal tua 20 miliwn o adar positif rhag cyrraedd y gegin.

Datblygu'r Strategaeth

1.6 Mae'r Asiantaeth wedi ystyried llawer o ffynonellau gwybodaeth wrth ddatblygu'r strategaeth. Ffynhonnell bwysig yw'r cyngor ar fesurau rheoli *Campylobacter* mewn cywion ieir ar ffermydd a gyflwynodd yr ACMSF i'r Asiantaeth ym mis Medi 2002⁴. Cadarnhaodd hyn farn yr Asiantaeth fod **rheoli yn ymarferol mewn cywion ieir sy'n cael eu magu mewn cwt**. Caiff y farn hon ei hategu hefyd gan ymweliadau â Denmarc a Norwy i ystyried y strategaethau mae'r gwledydd hyn yn eu gweithredu ar gyfer rheoli *Campylobacter* mewn cywion ieir.

1.7 Comisiynodd yr Asiantaeth bedwar adroddiad⁵ ar wahanol agweddau cynhyrchu dofednod sy'n cwmpasu *Campylobacter* a *Salmonella* ac mae'r rhain hefyd yn ganolog i'r strategaeth. Roedd yr adroddiadau'n adolygu gwaith a gyhoeddwyd ac na chyhoeddwyd ac yn darparu asesiad cyfredol o arferion y diwydiant, yn enwedig mewn perthynas â mesurau hylendid ar ffermydd, trwy gyfweiliadau strwythuredig gyda chynrychiolwyr o gwmnïau dofednod.

1.8 Mae trafodaethau â budd-ddeiliaid hefyd wedi bod yn allweddol i ddatblygu'r strategaeth ac wedi'u cynnal yn bennaf trwy Grŵp Ymgynghorol a sefydlwyd gan yr Asiantaeth⁶. Mae'r grŵp yn cynnwys sefydliadau allweddol sydd â diddordeb yn niwydiant dofednod y DU, yn ogystal â defnyddwyr, ac

⁴ <http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/acm597.pdf>

⁵ 1. Testing and scheduling practices for *Salmonella* and *Campylobacter* (ZB00023)

2. Poultry transport crate hygiene (ZB00033)

3. *Campylobacter* biosecurity at the broiler farm (ZB00030)

4. Biosecurity on the broiler farm as an anti-*Salmonella* control measure (ZB00034).

Adroddiadau ar gael o Lyfrgell yr ASB: Cysylltwch â'r Llyfrgellydd Cynorthwyol, Food Standards Agency, 125 Kingsway, Llundain WC2B 6NH, ffôn: 020 7276 8060.

⁶ <http://www.food.gov.uk/science/sciencetopics/microbiology/36970/>

wedi bod yn ddull hynod o effeithiol ar gyfer casglu gwybodaeth a chyfnewid safbwyntiau am wahanol agweddau'r strategaeth.

Cwmpas y Strategaeth

1.9 Prif ganolbwynt y strategaeth yw cywion ieir a gynhyrchir yn ddwys, h.y. adar mewn cwt. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod mwyafrif cywion ieir y DU yn cael eu cynhyrchu drwy'r dull hwn, ac y bydd hi'n llawer anoddach rheoli adar a gynhyrchir mewn mannau ehangach (buarth ac organig) gan na ellir rheoli eu cysylltiad â'r amgylchedd. Fodd bynnag, er mai cyfran fechan o frwyliaid y DU (llai na 5%) sy'n cael eu magu fel hyn, mae hyn yn gyfystyr â nifer sylweddol o gywion ieir, ac mae'n bwysig ystyried mesurau rheoli posib. Felly, mae'r Asiantaeth yn ystyried ariannu ymchwil yn y maes hwn ac wedi gofyn am Ddatganiadau Diddordeb i amlinellu ffyrdd o gyflawni hyn.

1.10 Mae canolbwynt y gwaith ar ladd-dai yn datblygu Rheoliadau Cig (HACCP) 2002 sy'n cynnwys gofyniad cyfreithiol i ladd-dai weithredu gweithdrefnau yn seiliedig ar egwyddorion HACCP erbyn 2003. Dylid nodi *Campylobacter* fel perygl mewn gweithfeydd cig dofednod ac er nad oes mesurau rheoli penodol i'w cael ar hyn o bryd, dylai gwella hylendid cyffredinol mewn gweithfeydd a ddaw yn sgil gweithredu HACCP gyfrannu at reoli'r organeb. Bydd adolygiad rheolaidd ar HACCP gan y gweithredwr hefyd yn fodd o gynnwys gwybodaeth newydd a ddaw o'r gwaith ymchwil parhaus.

1.11 Nid oes gan yr Asiantaeth gyfrifoldeb uniongyrchol am gywion ieir sy'n cael eu cynhyrchu y tu allan i'r DU. Fodd bynnag, bydd y mesurau rheoli a nodir yn y strategaeth hon yr un mor berthnasol i'r adar hyn a bydd yr Asiantaeth yn disgwyl i'r busnesau sy'n cynhyrchu a gwerthu cywion o'r fath geisio sicrhau yr un lefel o reolaeth ar *Campylobacter* ag sy'n cael ei weithredu yn y DU.

Gorolwg o'r Strategaeth

1.12 Y prif amcanion ar gyfer 3 blynedd cyntaf y strategaeth (2003 i 2006) yw: -

- **Gwella bioddiogelwch ar ffermydd cywion dwys (adar mewn cwt), gan roi sylw arbennig i'r mesurau a fyddai'n effeithio'n benodol ar *Campylobacter*;**
- **Darparu canllawiau i ffermwyr allu cyflawni'r gwelliant hwn lle bo angen;**
- **Sefydlu dull i ledaenu gwybodaeth am fiolddiogelwch a rheoli *Campylobacter* yn gyflym ac effeithlon i'r diwydiant (yn enwedig ffermwyr);**
- **Rhoi cefnogaeth a chynghor i ladd-dai dofednod ar gyfer gweithredu ac adolygu gweithdrefnau yn seiliedig ar egwyddorion HACCP mewn lladd-dai;**
- **Creu cysylltiadau â gweithgareddau ehangach yr Asiantaeth trwy'r gadwyn fwyd, trefniadau gorfodi ac ymwybyddiaeth defnyddwyr i leihau lefelau o heintiad *Campylobacter*.**
- **Sefydlu system i werthuso effeithiolrwydd y strategaeth.**

1.13 Bydd y cyfnod cychwynnol o 3 blynedd yn gosod y sylfeini ar gyfer rheoli *Campylobacter* yn gynyddol. Trwy sicrhau bod pob fferm yn cyrraedd safon bioddiogelwch priodol, disgwylir lleihad yn nifer y brwyliaid sy'n profi'n positif am *Campylobacter*. Dylai hyn effeithio ar nifer yr adar halogedig sy'n gadael y lladd-dy, ac felly ar lefelau salwch sy'n gysylltiedig â *Campylobacter*, a gallai arwain at ddewisiadau eraill posib ar gyfer gwella mesurau rheoli yn y dyfodol. Er enghraifft, gall gynyddu ymarferoldeb profi ac amseru brwyliaid, fel bo brwyliaid negatif yn cael eu lladd cyn rhai positif, neu gyfeirio brwyliaid positif ar gyfer triniaeth wres, rhewi, neu dechnegau eraill a fydd yn lleihau lefel halogiad *Campylobacter*. Byddwn yn ystyried dewisiadau o'r fath yn yr hirdymor ac, i raddau helaeth, byddant yn dibynnu ar ba mor effeithiol fydd y strategaeth o ran lleihau presenoldeb yr haint mewn brwyliaid a lleihau nifer yr

achosion cyfatebol mewn pobl. Yn ogystal, efallai y bydd dewisiadau rheoli newydd yn ymddangos wrth i waith ymchwil ddatblygu a bydd angen ystyried y rhain pan ddaw'r amser i ystyried amcanion ar gyfer 2006 ac wedi hynny. Yn olaf, gall canlyniadau'r mesurau fydd yn cael eu gweithredu ac unrhyw newidiadau i nifer yr achosion mewn pobl alluogi'r Asiantaeth i asesu beth yw'r lefel lleihau ymarferol a gosod amserlen realistig ar gyfer cyflawni hyn.

2. HYBU BIODDIOGELWCH DA

Cyflwyniad

2.1 Mae mesurau ar gyfer rheoli *Salmonella* mewn cywion ieir wedi'u hen sefydlu yn y DU, ac wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran lleihau lefel y dofednod ar werth oedd yn cynnwys *Salmonella*. Yn gyffredinol, cytunir bod rhai o'r mesurau hyn yn llai pwysig ar gyfer rheoli *Campylobacter* (barn a ategir gan yr ACMSF), er enghraifft rheoli'r haint mewn adar sy'n bridio neu mewn bwyd anifeiliaid, ac nid oes unrhyw bosibilrwydd ar hyn o bryd o ddatblygu brechlyn yn ei erbyn. Bydd eraill yn effeithio ar y ddwy organeb, o ran yr angen i sicrhau bod ffermwyr cywion ieir yn bodloni safonau bioddiogelwch priodol⁷. Mae hon yn her allweddol o ran rheoli'r organeb ar ffermydd gan bod ganddi bresenoldeb eang iawn yn yr amgylchedd, ac mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu y bydd *Campylobacter* yn lledaenu drwy'r haid mewn ychydig ddyddiau unwaith y bydd yn cyrraedd cwt y cywion.

2.2 Mae gwybodaeth ar gael am fioggiogelwch a chasglwyd llawer o'r wybodaeth hon ynghyd yn *Code of Practice for the Prevention and Control of Salmonella in Chickens Reared for Meat on Farm*⁸ Defra. Er bod hwn wedi'i gynllunio ar gyfer *Salmonella*, mae llawer o'r mesurau yn arferion da cyffredinol ac yr un mor gymwys i ddarparu'r sylfaen ar gyfer rheoli *Campylobacter*. Er bod y Cod yn wirfoddol, byddai'r Asiantaeth yn disgwyl i'r diwydiant ei ddefnyddio fel sail i unrhyw fesurau bioddiogelwch sy'n cael eu gweithredu ar ffermydd.

Bioddiogelwch ar Ffermydd y DU

2.3 Mae gwaith yr Asiantaeth hyd yn hyn yn dangos fod llawer yn ymwybodol o God Defra, a bod nifer o fesurau'r Cod hefyd wedi'u cynnwys

⁷ Mae bioddiogelwch yn derm sy'n cynnwys yr holl fesurau (eithrio, difa neu reoli) y gellir eu cymryd i atal organebau annymunol rhag cael mynediad i'r haid.

⁸http://www.defra.gov.uk/animalh/diseases/zoonoses/zoonoses_reports/salmonellainchick.pdf

mewn adrannau perthnasol o gynllun Sicrwydd Cynhyrchu Cywion Ieir (ACP)⁹. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn hefyd wedi dangos nad yw ymwybyddiaeth o reidrwydd yn troi yn ymarfer, gyda diffygion bioddiogelwch yn nodwedd gyffredin ar ffermydd.

2.4 Mae hyn yn destun pryder, gan fod arferion cyfredol wedi arwain at leihad sylweddol mewn *Salmonella*, ond mae *Campylobacter* yn llawer mwy anodd i'w reoli. Nid wyddom beth yw'r holl resymau am hyn, ond mae'n debyg ei fod yn adlewyrchu'r ffaith fod *Campylobacter* yn gyffredin iawn yn yr amgylchedd a bod angen mesurau tynnach i sicrhau nad yw'r organeb hon yn cael mynediad i gwt y cywion.

2.5 Amlygwyd y problemau hyn yn y 4 adroddiad ar arferion y diwydiant (gweler paragraff 1.7) oedd yn casglu gwybodaeth gan nifer o gynhyrchwyr cywion mawr. Er bod bioddiogelwch yn cael ei weithredu'n dda yn gyffredinol, gwelwyd diffygion ar nifer o ffermydd. Nodwyd problemau mawr mewn rhai achosion, ond yn amlach na pheidio mân broblemau a gafwyd oedd yn dangos yr angen i dynhau arferion cyfredol yn hytrach na gweithredu newidiadau ar raddfa eang. Mae manylion pellach i'w cael yn yr adroddiadau, ond ceir crynodeb o'r canfyddiadau yn y paragraffau canlynol.

Golchi dwylo

2.6 Dylai golchi dwylo wrth fynd i mewn i gwt brwyliaid fod yn un o'r mesurau bioddiogelwch mwyaf sylfaenol i atal adar rhag dod i gysylltiad â *Campylobacter*. Mae'n bwysig hefyd fod cyfleusterau golchi dwylo yn cael eu cynnal yn briodol. Mae yna rai cytiau o hyd heb gyfleusterau golchi dwylo ac nid oes gofyn i bobl olchi eu dwylo wrth fynd i mewn i'r cwt ar rai ffermydd.

⁹ <http://www.assuredchicken.org.uk/Scheme/scheme.html>

Mynediad i siediau'r brwyliaid

2.7 Er na ellir osgoi mynd i gwt brwyliaid, dylid gwneud hyn cyn lleied â phosib a chymryd camau bioddiogelwch priodol wrth wneud hynny. Dylai pawb sy'n mynd yno, boed yn staff, ymwelwyr, neu'n weithwyr cynnal a chadw, newid eu hesgidiau (neu wisgo sgidiau eraill ar ben eu sgidiau arferol). Fodd bynnag, nid oedd pob cwmni'n gweithredu hyn. Roedd yna amheuaeth hefyd yngl n â goruchwyllo gweithwyr cynnal a chadw ac ymwelwyr, gyda rhai cwmnïau'n methu rheoli mynediad na darparu goruchwyliaeth briodol.

Trosglwyddo offer

2.8 Mae symud offer rhwng cytiau yn gyfrwng posib amlwg ar gyfer lledaenu'r haint rhwng heidiau o gywion. Dangosodd yr adroddiadau bod symud clorian rhwng cytiau yn arfer cyffredin. Yn ddelfrydol, dylid defnyddio offer mewn un cwt yn unig, ond os nad yw hyn yn bosib, dylid sicrhau lefel addas o lanhau a diheintio.

Anifeiliaid anwes a da byw

2.9 Gwyddir bod anifeiliaid anwes a da byw yn gallu cludo *Salmonella* a *Campylobacter* ac ni ddylid gadael iddynt gael mynediad i'r ardal o amgylch cwt y brwyliaid. Mae hyn yn dal i ddigwydd ar ffermydd a gallai unrhyw garthion a waredir o gwmpas cwt y brwyliaid gael eu cludo i mewn ar offer neu esgidiau.

Ymgyrch Bioddiogelwch

2.10 Fel y nodwyd uchod, mae astudiaethau'r Asiantaeth wedi dangos bod angen gwella bioddiogelwch a dylanwadu ar arferion rheoli ffermydd a sicrhau bod mesurau bioddiogelwch yn cael eu gweithredu'n gywir. Mae'r Asiantaeth felly'n bwriadu cynnal **ymgyrch i wella bioddiogelwch ar ffermydd brwyliaid.**

2.11 Yn gynnar iawn yng ngwaith yr Asiantaeth gwelwyd bod angen gwella lledaeniad gwybodaeth rhwng ac o fewn y grwpiau o fudd-ddeiliaid. Mae'r Asiantaeth felly wedi dechrau gweithredu i fynd i'r afael â'r angen hwn gan

drafod dulliau posib yn yr Asiantaeth a chyda budd-ddeiliaid i ddatblygu ymgyrch i wella bioddiogelwch ar ffermydd brwyliaid. Bydd yr ymgyrch yn helpu i hyrwyddo diwylliant sy'n cydnabod pwysigrwydd bioddiogelwch da i reoli *Campylobacter* ac yn annog ffermwyr i feddwl am gywion ieir fel cynnyrch bwyd yn ogystal ag anifeiliaid.

Yr Ymgyrch – Cam 1

2.12 Bydd Cam 1, a gynlluniwyd ar gyfer hydref 2003, yn pwysleisio'r mesurau bioddiogelwch pwysicaf i ffermwyr, ac yn gyflwyniad cyffredinol i'r ymgyrch. Bydd negeseuon yr ymgyrch, a'r dull o'u lledaenu, yn cael eu datblygu dros yr haf ac wedi'i seilio'n helaeth ar God Defra, canlyniadau ymchwil, a thrafodaethau *ad hoc* gydag arbenigwyr. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd yr Asiantaeth yn ceisio sefydlu llinellau cyfathrebu gyda holl ffermydd y DU sy'n magu cywion ar gyfer cig (credir bod tua 2,000 ohonynt). Disgwylir y bydd y broses o adnabod 80-90% o ffermwyr yn un gymharol hawdd, yn bennaf trwy eu rhan yng nghynlluniau sicrwydd y diwydiant. Gall adnabod y gweddill fod yn dasg anoddach, er y gall cysylltiadau â chymdeithasau masnach ffermio helpu gyda hyn.

Yr Ymgyrch – Cam 2

2.13 Mae Cam 2 yn debyg o ddechrau yng ngwanwyn 2004, a bydd yn canolbwyntio ar ddarparu cyngor manylach ar wella bioddiogelwch ar ffermydd, a datblygu'r mesurau a nodwyd yng ngham 1. Mae trafodaethau cychwynnol wedi cadarnhau mai ychydig o lwyddiant mae pecynnau gwybodaeth neu lenyddiaeth arall o'r fath yn debyg o'i gael oni bai ei fod yn gysylltiedig â rhyw fath o gyswllt wyneb i wyneb gyda'r ffermwr. Mae dewisiadau ar gyfer sefydlu'r cysylltiad hwn yn cynnwys ymweliadau â ffermydd unigol, ffermydd astudio sy'n dangos mesurau bioddiogelwch ar waith a gweithdai technegol. Mae profiad blaenorol yn awgrymu mai gweithdai technegol yw'r ffordd orau o gyflawni hyn a hynny ar lefel ranbarthol a lleol gyda chefnogaeth gan lenyddiaeth perthnasol. Bydd trafodaethau pellach gyda budd-ddeiliaid a'r grwpiau ffocws a ddefnyddiwyd yng ngham 1 yn cadarnhau ai dyma'r dull gorau ai peidio. Bydd y gwaith o ddatblygu cam 2 yn dechrau yn yr hydref.

Yr Ymgyrch – Cam 3

2.14 Mae'n debyg y bydd Cam 3 yn debyg o ran dull i gam 2, ond bydd hyrwyddo'r broses o gyflwyno mesurau *Campylobacter* penodol fel rhwystrau hylendid neu fesurau bioddiogelwch ychwanegol wrth deneuo. Rhagwelir y bydd y cam hwn yn dechrau yn hydref 2004, ond mae'n bosib y gellid gweithredu rhai agweddau cyn hynny pe byddai'r wybodaeth angenrheidiol ar gael, h.y. os gellir nodi arferion gorau a'u cynnwys yn y canllawiau.

Datblygu a Gwerthuso'r Ymgyrch

2.15 Bydd ymgyrch effeithiol yn arwain at godi ymwybyddiaeth o'r angen am fioggiogelwch da a newidiadau yn ymddygiad ffermwyr. Bydd trafodaethau parhaus gyda budd-ddeiliaid (yn cynnwys grwpiau ffocws os oes angen) yn helpu i sicrhau bod dulliau priodol yn cael eu mabwysiadu a'r mesurau'n cael eu cyflwyno mewn modd a fydd yn dal sylw'r ffermwyr. Mae'r Asiantaeth yn bwriadu gwerthuso'r ymgyrch trwy fonitro lefelau ymwybyddiaeth a newidiadau o ran ymarfer. Mae'n bwysig nodi ei bod hi'n anodd iawn monitro newidiadau mewn ymddygiad a chysylltu'r rhain i'r ymgyrch. Fodd bynnag, mae'r Asiantaeth yn ystyried dangosyddion priodol a allai ddangos unrhyw newidiadau i arferion ffermydd yn ystod yr ymgyrch ac wedi hynny.

2.16 Bydd camau cyntaf yr ymgyrch yn darparu sylfaen ar gyfer gwella llif gwybodaeth i ffermwyr brwyliad. Bydd yr Asiantaeth yn adeiladu ar hyn ac felly mae'n rhaid ystyried dewisiadau hirdymor ar gyfer cynnal y cyswllt cyfathrebu a darparu gwybodaeth am arferion gorau i ffermwyr. Gallai hyn gynnwys diweddarau'r llenyddiaeth a ddarparwyd yng nghanam 2 (e.e. ychwanegion ar gyfer ffolderi), cylchlythyrau, seminarau ar faterion penodol neu daflenni ffeithiau.

3. RHEOLI CAMPYLOBACTER

Cefndir

3.1 Fel y nodwyd eisoes, mae gwybodaeth am y ffordd orau o reoli Campylobacter mewn cywion ieir yn dal yn anghyflawn. Fodd bynnag, nodwyd mesurau a allai gyfrannu at reoli Campylobacter, a bydd y rhain yn cael eu hystyried ar gyfer eu cynnwys yng ngham 3 yr ymgyrch. Mae yna ddigon o dystiolaeth i ddangos y bydd rhai o'r mesurau hyn yn cyfrannu at reoli Campylobacter, ond mae angen ymchwilio pellach yn achos mesurau eraill.

Rhwystrau hylendid

3.2 **Mae'r Asiantaeth yn credu y dylid gweithredu rhwystrau hylendid¹⁰ yn holl gyntiau dofednod pob fferm.** Mae pobl yn mynd a dod o gwt brwyliaid yn cael ei gydnabod fel un o'r ffactorau risg pwysicaf o ran cyflwyno'r haint *Campylobacter* i haid o gywion. Bydd llawer o bobl yn ymweld â chwt, hyd yn oed pan fydd yr ymweliadau hyn yn cael eu cyfyngu i ymwelwyr hanfodol megis staff y fferm a milfeddygon yn unig, ac mae yna ddigon o gyfle i dorri mesurau bioddiogelwch. Nid oes amheuaeth y bydd arferion hylendid cyffredinol dda, megis golchi dwylo a newid/glanhau esgidiau, yn lleihau'r risg o gyflwyno *Campylobacter*. Fodd bynnag, mae angen ategu hyn gyda rhwystrau hylendid lle mae gweithwyr ac ymwelwyr yn camu dros y rhwystr ac yn newid o esgidiau sy'n cael eu gwisgo y tu allan i'r cwt i esgidiau a dillad arbennig a gedwir y tu mewn i'r rhwystr.

3.3 Mae yna rywfaint o dystiolaeth i gefnogi cysylltiad rhwng defnyddio rhwystrau o'r fath a'r tebygrwydd o gael haid o gywion sy'n profi'n negatif am *Campylobacter*. Yn ogystal, bydd adeiladu rhwystr corfforol sy'n rhaid camu drosto yn atgoffa'r ffermwr (ac unrhyw ymwelydd) bod angen cymryd camau

¹⁰ Mae'r term 'rhwystr hylendid' yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at rwystr corfforol sy'n gwahanu'r rhag-ystafell o'r ardal lle mae'r adar, gan wahanu'r manau glân a budr.

diogelwch i atal unrhyw ddeunydd a allai fod wedi'i halogi â *Campylobacter* (mwd, carthion ac ati) rhag cael eu cludo i gwt y brwyliaid. Mae'r Asiantaeth yn ymwybodol bod rhai yn ystyried dipiau esgidiau yn ddull digonol gwahanol i rwystrau hylendid. Fodd bynnag, er eu bod i'w cael ar ffermydd, mae'n amheus a ydynt yn cael eu defnyddio bob amser, ac os ydynt yn cael eu defnyddio, bydd eu heffeithiolrwydd yn cael ei leihau gan amser trochi byr, deunydd organig ar esgidiau a diheintydd rhy wan.

3.4 Dim ond pan gynllunnir ac y defnyddir rhwystrau hylendid yn briodol y byddant yn gallu atal *Campylobacter* yn effeithiol. Bydd angen i unrhyw becyn canllawiau amlygu'r materion hyn. Wrth wneud hynny, rhoddir sylw i'r angen am newid dillad yn ogystal ag esgidiau. Gellid trosglwyddo'r haint o gwt i gwt ar ddillad, ond bydd angen ystyried pa mor ymarferol yw newid dillad yn barhaus ar safle sy'n cynnwys sawl cwt.

Teneuo

3.5 Teneuo yw cael gwared â rhan o'r haid o gywion cyn diboblogi. Mae'n arfer cyffredin ledled diwydiant dofednod y DU, sy'n galluogi ffermwyr i wneud y defnydd gorau o'r lle sydd ganddynt i fagu adar, tra'n bodloni'r gofynion lles angenrheidiol ar gyfer dwysedd stoc a gofynion defnyddwyr am adar o wahanol faint. Fodd bynnag, mae'r broses o deneuo yn torri bioddiogelwch ac felly yn ffactor risg sylweddol ar gyfer heintio haid o gywion â *Campylobacter*.

3.6 Mae'r Asiantaeth yn cydnabod bod ystyriaethau economaidd a gofynion defnyddwyr yn rhesymau dros beidio diddymu'r arfer, ond mae o'r farn bod posib teneuo mewn modd sy'n lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses ac y dylid gwneud hynny. Yn ystod cylch casglu, bydd staff ac offer teneuo yn symud o gwt i gwt ar fferm, ac o fferm i fferm, ac mae'n hawdd gweld sut mae *Campylobacter* yn gallu lledu o un haid i'r llall, er enghraifft, ar esgidiau budr neu offer heb ei lanhau'n iawn.

3.7 Mae'r Asiantaeth yn comisiynu ymchwil i archwilio'r broses deneuo yn fanwl ac yn paratoi canllawiau ar arferion gorau. Dylai cyngor dros dro ar y camau diogelwch hylendid sylfaenol sydd angen eu gweithredu gan griwiau teneuo fod ar gael o fewn ychydig fisoedd i ddechrau'r gwaith. Gan y bydd hi'n anodd iawn sicrhau'n llwyr na chaiff *Campylobacter* ei gyflwyno i haid o gywion yn ystod y broses deneuo, bydd yr ymchwil hefyd yn ystyried a fyddai cyflwyno atebion mwy 'mentrus' yn lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses.

Golchi Cretiau

3.8 Cydnabuwyd ers cryn amser nad yw systemau a ddefnyddir i olchi cretiau ac unedau cludo mewn gweithfeydd prosesu mor effeithiol o bosib i sicrhau nad ydynt wedi'u halogi â *Campylobacter*. O ganlyniad, maent yn ffynhonnell halogi bosib wrth gyrraedd yn ôl i'r fferm. Mae gwaith gan yr Asiantaeth wedi dangos nad yw'r systemau hyn yn cael eu defnyddio i'w potensial llawn, e.e. mae cyfarwyddiadau cynhyrchwyr yn annigonol neu mae ffermwyr yn eu hanwybyddu. Comisiynwyd gwaith pellach i gynhyrchu gwybodaeth am y ffordd orau o weithredu'r systemau cyfredol. Fodd bynnag, mae'n debyg na fydd y systemau cyfredol yn datrys y broblem yn llwyr pe byddent yn cael eu defnyddio i'r eithaf, ac mae gwaith ar droed i asesu a fyddai ailgynllunio'r systemau hyn yn helpu i sicrhau nad yw cretiau'n cael eu halogi â *Campylobacter*. Mae'r Asiantaeth yn bwriadu paratoi canllawiau a gwybodaeth o ganlyniadau'r ymchwil a fydd yn cael eu dosbarthu i weithredwyr gweithfeydd prosesu.

Arferion rheoli ffermydd

3.9 Mae ymchwil a ariannwyd gan yr Asiantaeth, ac ymchwil mewn gwledydd eraill, wedi dangos fod rhai ffermwyr yn cynhyrchu heidiau cyson o gywion sy'n profi'n negatif am *Campylobacter*, tra bod ffermwyr eraill yn cynhyrchu rhai sydd yn bositif bron yn ddieithriad. Ni wyddir yn iawn beth yw'r rhesymau am hyn, er bod ymchwiliad data cynnar wedi dangos y gallai fod yna berthynas rhwng statws *Campylobacter* a lefelau coesgynnau llosg, padiau llosg, cywion sy'n cael eu gwrthod ar adeg lladd a marwolaeth, gyda lefelau isel yn fwy tebyg o fod yn gysylltiedig â haid o gywion sydd wedi profi'n negatif am *Campylobacter*. Tra gellir cysylltu lefelau isel o goesgynnau llosg,

padau llosg, cywion sy'n cael eu gwrthod ar adeg lladd a marwolaeth gyda heidiau iach, mae amrywiadau yn y paramedrau hyn yn arwydd o iechyd cyffredinol yr haid ac esboniad posib o'r berthynas hon yw fod haid iach yn gallu gwrthsefyll heintiad *Campylobacter* yn well. Gallant hefyd adlewyrchu arferion rheoli fferm da a gallant fod yn arwydd bod mwy o sylw wedi'i roi i weithredu mesurau bioddiogelwch ac felly ei bod yn llai tebygol bod *Campylobacter* yn cael ei gyflwyno i'r haid.

3.10 Er bod yr Asiantaeth yn disgwyl i bob ffermwr roi sylw i weithdrefnau iechyd a lles anifeiliaid yn ôl yr arfer, byddai profi cysylltiad rhwng arferion rheoli ffermydd a statws *Campylobacter*, yn ysgogiad ychwanegol ar gyfer arferion da. Felly, mae'r Asiantaeth yn parhau i ariannu gwaith yn y maes hwn i archwilio'r berthynas bosib hon ymhellach. Caiff hyn ei lesteirio gan ddiffyg gwybodaeth hanesyddol am statws *Campylobacter* heidiau cywion y DU. Fodd bynnag, bydd cydweithio arfaethedig gydag ymchwilwyr yn Nenmarc a Norwy yn fodd o brofi'r ddamcaniaeth yn erbyn setiau data sylweddol. Pe profir bod yna gysylltiad, yna bydd yr angen am safonau iechyd a lles da i heidiau o gywion yn cael ei hyrwyddo fel rhan o'r strategaeth *Campylobacter* a'r angen am unrhyw weithredu pellach yn cael ei drafod gydag Adrannau Amaethyddiaeth y DU.

Materion Eraill

3.11 Ystyrir mai'r meysydd a amlinellwyd uchod yw'r mesurau bioddiogelwch penodol pwysicaf yng nghyswllt *Campylobacter* a rhain fydd canolbwynt gwaith yr Asiantaeth dros y flwyddyn neu ddwy nesaf. Fodd bynnag, nid yw hon yn rhestr derfynol o bell ffordd ac mae'n debyg y bydd meysydd eraill yn cael eu hychwanegu wrth i wybodaeth ddod i'r amlwg o waith ymchwil, o brofiadau gwledydd eraill, neu o ddiwydiant.

3.12 Un maes i'w ystyried fydd y cyflenwad dŵr yn nghwt y brwyliad, gan fod yna drafodaeth o hyd ynglŷn â'r cwestiwn a yw dŵr yn gweithredu fel ffynhonnell halogi neu fel cyfrwng lledaenu'n unig unwaith mae *Campylobacter* wedi cael gafael ar y brwyliad. Yr olaf sy'n ymddangos yn fwyaf tebygol gan fod y mwyafrif o heidiau'r DU yn derbyn dŵr o'r prif

gyflenwad, na ddylai gynnwys *Campylobacter*. Fodd bynnag, mae profiadau gwledydd eraill yn awgrymu y gallai defnyddio cyflenwadau dŵr preifat fod yn broblem. Hefyd, efallai y gallai *Campylobacter* oroesi mewn bioffilmiau mewn systemau dosbarthu dŵr. Y naill ffordd neu'r llall, mae astudiaethau ymyrryd gan ddiwydiant y DU wedi dangos y gall trin dŵr yn nghwt y brwyliaid leihau y tebygolrwydd i haid brofi'n bositif yn sylweddol. Y bwriad yw ymchwilio'r rhan sydd gan ddŵr i chwarae fel rhan o'r prosiect i archwilio'r berthynas rhwng arferion rheoli ffermydd a statws *Campylobacter* mewn heidiau o gywion.

4. CAMAU A MESURAU RHEOLI YN Y LLADD-DY YN Y DYFODOL

4.1 Er y bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar y fferm frwyliaid i ddechrau, nid yw'r Asiantaeth yn anwybyddu pwysigrwydd arferion rheoli yn y lladd-dy. Gallai lleihad yr haint mewn heidiau agor y drws ar gyfer dewisiadau rheoli yn y cam hwn o'r gadwyn fwyd, gyda'r rhain yn cael eu cyflwyno trwy'r llwybr HACCP. Mae'r strategaethau a fabwysiadwyd mewn rhai o'r gwledydd Scandinafaidd yn dangos sut y gall hyn weithio. Er enghraifft, yn Norwy, mae pob haid yn cael ei brofi cyn eu lladd a'r rhai sy'n profi'n positif yn cael eu lladd ar ddiwedd y dydd a'u prosesu ymhellach (trwy gael eu rhewi neu eu trin â gwres) cyn cael eu rhoi ar y farchnad.

4.2 Yn Nenmarc, gall cwmnïau labelu cynnyrch fel 'cyw iâr nad yw'n cynnwys *Campylobacter*'. Mae'r heidiau y credir nad ydynt yn cynnwys *Campylobacter* (trwy brofion ar y fferm) yn cael eu lladd yn y lladd-dy ar ddechrau'r diwrnod, lle maent yn cael eu profi'n helaeth am yr organeb unwaith eto. Mae'r adar yn cael eu rhewi wedyn a'u storio nes bod canlyniadau'r profion yn cyrraedd. Os yw'r canlyniadau'n negatif, gellir rhyddhau'r adar i'r farchnad. Er mai dim ond ar gyfer cywion ieir wedi'u rhewi y defnyddir y dull hwn ar hyn o bryd, gallai defnyddio dull canfod cyflym ymestyn y labelu hwn i gynnyrch ffres hefyd.

4.3 Y prif beth sydd angen ei wneud i leihau salwch yw lleihau'r cysylltiad â *Campylobacter* a gellir gwneud hyn mewn dwy ffordd, trwy leihau nifer yr adar positif sy'n cyrraedd y gegin neu drwy leihau'r niferoedd gwirioneddol ar bob aderyn a/neu garcas. Mae Llywodraeth Denmarc yn ystyried bod effaith rhewi ar lefelau *Campylobacter* ar garcasau yn ddewis da iawn ar gyfer lleihau achosion o salwch sy'n deillio o'r organeb hon mewn cywion ieir. Yn wir, er eu bod yn derbyn ei bod hi'n bwysig gweithredu mesurau rheoli priodol ar ffermydd, teimlir y byddai lleihau niferoedd *Campylobacter* ar garcasau 100 gwaith yn cael llawer mwy o effaith (cafwyd y wybodaeth hon o asesiad risg). Mae triniaeth orfodol i heidiau positif, naill ai trwy rewi neu trwy rhyw ddull

arall o leihau'r niferoedd 100 gwaith, megis golchiad d r poeth, yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

4.4 Ar hyn o bryd, nid yw'r strategaethau a ddefnyddir yn Scandinafia yn cael eu hystyried yn addas ar gyfer sefyllfa'r DU. Mae presenoldeb yr haint yn rhy uchel yn heidiau'r DU ac mae yna wahaniaethau sylfaenol rhwng diwydiant y DU a Scandinafia. Mae diwydiant y DU yn fwy ac, yn bwysicach, yn seiliedig ar y farchnad gig ffres. Felly, nid yw symud i rewi neu drin cywion ieir o heidiau positif â gwres yn gynnig ymarferol. Nid oes gan y DU system ychwaith ar gyfer profi heidiau am *Campylobacter* cyn lladd.

4.5 Fodd bynnag, bydd yr Asiantaeth yn gwylio'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y golchiad d r poeth yn Nenmarc gyda diddordeb. Mae'r Asiantaeth hefyd yn ariannu gwaith ar ddulliau dadheintio ffisegol yn cynnwys aer-sychu, triniaeth stêm gyflym a 'rhewi croen'¹¹ cywion yn y lladd-dy, y cyfan a'r potensial i leihau nifer *Campylobacter* ar gig ffres heb effeithio ar olwg ac ansawdd y cynnyrch.

¹¹ Mae'r term 'rhewi croen' yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at rewi'r croen nid y cyhyr.

5. GWERTHUSO

Gwerthuso

5.1 Mae'n rhaid gwerthuso effeithiolrwydd mesurau'r strategaeth wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Mae arolwg diweddar yr Asiantaeth ar *Salmonella* a *Campylobacter* mewn cywion ieir sy'n cael eu gwerthu yn darparu gwybodaeth llinell sylfaen ar gyfer barnu unrhyw leihad yng nghyfran cywion a gynhrychir yn y DU sydd wedi'u halogi â *Campylobacter* yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod fod yna dystiolaeth o amrywiadau tymhorol yn achosion yr haint yn heidiau'r DU ac y gallai hyn amlygu ei hun yn y cynnyrch sy'n cael ei werthu. O ganlyniad, mae'r Asiantaeth yn bwriadu sefydlu 'arolwg adwerthu treiglol' a fydd, dros amser, yn darparu data ar lefel cyffredinol halogiad yn y cynnyrch a werthir ac amrywiadau tymhorol. Bydd arolwg Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru ar *Campylobacter* mewn cywion ieir yn sail i'r arolwg treiglol hwn, arolwg a gymerodd samplau ar hap o gywion ieir amrwd, ffres ac wedi rhewi o ystod eang o fannau gwerthu masnachol ledled Cymru gan 20 Adran Iechyd Awdurdod Lleol rhwng mis Tachwedd 2001 a mis Chwefror 2003. Mae'r arolwg hwn wedi'i ymestyn hyd fis Rhagfyr 2003 ac wrth wneud hynny, bydd yn darparu gwerth tua dwy flynedd o ddata ar lefelau halogiad *Campylobacter* mewn cywion ieir yng Nghymru.

5.2 Er y bydd data o arolwg adwerthu yn fodd o asesu llwyddiant cyffredinol y strategaeth, nid yw'n ymwneud yn uniongyrchol ag effeithiolrwydd yr ymgyrch bioddiogelwch ar ffermydd. Byddai'n ddefnyddiol cael y wybodaeth hon fel mesur gwerthuso a bydd yn hanfodol er mwyn ystyried profi ac amseru heidiau *Campylobacter* neu fesurau rheoli eraill ar gyfer llad-dai yn y dyfodol. Ymhellach, byddai gwybodaeth fanwl am achosion o'r haint mewn heidiau yn galluogi gwell asesiadau o effeithiolrwydd gwahanol strategaethau ymyrryd.

5.3 Gyda golwg ar yr ystyriaethau hyn, byddai'r Asiantaeth yn hoffi gweld gweithredu system ar gyfer mesur achosion o *Campylobacter* yn haid y DU. Byddai angen trafod hyn gydag Adrannau Amaethyddiaeth y DU. Fodd

bynnag, fel cam cyntaf yn y gwaith hwn, mae'r Asiantaeth yn comisiynu gwaith i asesu'r dulliau mwyaf priodol o samplu a phrofi am *Campylobacter* mewn heidiau o ddofednod.

5.4 Mae'r Asiantaeth hefyd yn cynnal astudiaeth ar samplu a phrofi carcasau yn ficrobiolegol mewn lladd-dai, gyda'r gwaith hwn yn cynnwys canfod achosion o *Campylobacter* a'u cyfrif. Bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn rhoi gwybodaeth am lefelau a thueddiadau *Campylobacter* ar adar sydd newydd eu lladd, gan ychwanegu at y darlun cyffredinol mae'r Asiantaeth yn gobeithio'i gael o'r organeb hon yng ngwahanol gamau'r gadwyn ddofednod.

6. GWEITHREDU'R STRATEGAETH HON

6.1 Mae'r Asiantaeth wedi datblygu'r strategaeth hon ar gyfer rheoli *Campylobacter* mewn cywion ieir, ar y cyd â budd-ddeiliaid eraill, a bydd yn cymryd rhan yn y gwaith o weithredu'r strategaeth trwy'r ymgyrch arfaethedig ar fioldiogelwch, hyrwyddo HACCP mewn lladd-dai a thrwy gomisiynu ymchwil. Fodd bynnag, y diwydiant fydd yn bennaf gyfrifol am weithredu'r mesurau rheoli, gyda ffermwyr yn gyfrifol yn y lle cyntaf. Bydd gan rannau eraill y diwydiant ran i'w chwarae hefyd, yn arbennig os ydynt yn gallu dylanwadu ar arferion ffermydd. Er enghraifft, gall proseswyr ac adwerthwyr dofednod osod gofynion bioldiogelwch penodol sy'n rhaid i ffermwyr eu bodloni a'u helpu i wneud y newidiadau angenrheidiol ar y fferm. Pan fyddant yn gwneud hyn bydd yr Asiantaeth yn disgwyl iddynt ystyried y mesurau a amlinellwyd yn y strategaeth ac yn disgwyl i ofynion o'r fath fod yn berthnasol i'w holl gyflenwyr mewn marchnad fyd-eang.

6.2 Mae cyfraniad budd-ddeiliaid eraill yn cael ei weld fel elfen bwysig yn y gwaith o weithredu'r strategaeth. Bydd gwahanol sefydliadau masnach a phroffesiynol, Gwasanaeth Milfeddygol y Wladwriaeth a'r Gwasanaeth Hylendid Cig yn cydweithio â'r diwydiant dofednod a hyrwyddo gwahanol fesurau rheoli *Campylobacter* lle bo'n briodol. I'r diben hwn, tra bydd yr ymgyrch fioldiogelwch wedi'i hanelu at ffermwyr a'r gwaith HACCP at weithredwyr gweithfeydd cig dofednod, bwriedir dosbarthu'r negeseuon a'r deunydd canllaw yn eang.

Cydweithrediad y Diwydiant

6.3 Ar hyn o bryd, nid oes sail gyfreithiol i'r mwyafrif o'r mesurau yr hoffai'r Asiantaeth i'r diwydiant eu gweithredu ar ffermydd ac felly bydd llwyddiant y strategaeth yn dibynnu llawer ar weithredu gwirfoddol. Mewn cyferbyniad, mae gweithredu HACCP mewn lladd-dai yn orfodol dan Reoliadau Hylendid Cig Dofednod. Mae trafodaethau gyda budd-ddeiliaid wrth i'r strategaeth ddatblygu wedi dangos parodrwydd y diwydiant i fynd i'r afael â *Campylobacter*. Mae hyn yn fwyaf amlwg yng ngwaith ymchwil yr Asiantaeth i

Campylobacter mewn dofednod, llawer ohono wedi'i wneud yn bosib wrth i'r diwydiant ganiatáu mynediad i ladd-dai a ffermydd.

6.4 Fodd bynnag, mae'r Asiantaeth yn ymwybodol y bydd rhai o'r farn na ddylid cymryd camau i reoli *Campylobacter* nes bod yna dystiolaeth bendant y bydd y gwahanol fesurau a gynigir yn y strategaeth yn effeithiol. Tra'n cymryd sylw o'r pryder hwn, mae'r Asiantaeth yn credu bod y dystiolaeth sydd ar gael yn cyfiawnhau gweithredu yn awr, gan y bydd gweithredu'r strategaeth yn fodd o gasglu rhywfaint o'r dystiolaeth bendant hon.

Cynlluniau Sicrwydd y Diwydiant

6.5 Tra'n disgwyl cytundeb ar y Gyfarwyddeb Filheintiau¹², nid oes fframwaith ffurfiol ar hyn o bryd i'r Asiantaeth allu gweithredu'r strategaeth. Yr agosaf i fframwaith o'r fath fyddai cynllun sicrwydd diwydiant, a'r un mwyaf perthnasol yn y cyd-destun hwn yw'r cynllun Sicrwydd Cynhyrchu Cywion Ieir (ACP) (sy'n cwmpasu 85% o'r cywion a gynhyrchir yn y DU). Mae'r cynllun wedi bod yn weithredol ers 2000, gyda'r nod o osod safonau maethiad, lles, diogelwch bwyd ac amgylcheddol a gwirio i weld a yw cynhyrchwyr yn cydymffurfio â hwy. Er bod agweddau o fioggiogelwch a geir yn y strategaeth hon eisoes wedi'u cynnwys yn y cynllun, mae'n amlwg y byddai'n fuddiol cynnwys rhai o fesurau eraill y strategaeth hefyd, yn enwedig yn sgil y system archwilio sydd yn y cynllun ACP. Mae'r Asiantaeth eisoes wedi cynnal trafodaethau anffurfiol gyda'r rhai sy'n rheoli'r cynllun a bydd y rhain yn parhau wrth ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth.

¹² Dan Gyfarwyddeb Filheintiau arfaethedig newydd yr UE mae yna ddarpariaeth ar gyfer gosod targed i leihau *Campylobacter* mewn cynhyrchu sylfaenol. Fodd bynnag, yn y cynnig cyfredol, mae gosod targedau wedi'i gyfyngu am y tro i leihau *Salmonella* sydd o bwysigrwydd i iechyd y cyhoedd. Mae'r Gyfarwyddebau cyfredol ac arfaethedig yn gofyn i Aelod-Wladwriaethau gyflwyno data ar Filheintiau penodol, yn cynnwys *Campylobacter*.

Cost Gweithredu

6.6 Prif bwrpas y strategaeth hon yw gwella iechyd y cyhoedd, ac mae'n bwysig peidio anghofio'r nod hwn. Fodd bynnag, mae'r Asiantaeth yn cydnabod, yn sgil y farchnad fyd-eang mewn cywion, fod angen i ddiwydiant y DU barhau i fod yn gystadleuol yn ariannol ac y bydd yna bryder am oblygiadau ariannol mesurau rheoli *Campylobacter*. Er y bydd yn rhaid ystyried materion economaidd wrth i'r strategaeth ddatblygu, teimlir bod nifer o'r mesurau a nodwyd yn gymharol syml a bod modd eu cyflwyno yn gymharol rad, yn enwedig y mesurau sy'n ymwneud â bioddiogelwch sylfaenol dda (y dylai'r diwydiant fod yn gweithio tuag ato eisoes). O ganlyniad, ni ragwelir y bydd camau 1 a 2 yr ymgyrch fioggiogelwch yn cael effaith ariannol sylweddol ar y diwydiant dofednod.

6.7 Bydd Cam 3 yr ymgyrch yn hyrwyddo'r broses o gyflwyno mesurau penodol ar *Campylobacter*, megis rhwystrau hylendid neu fesurau bioddiogelwch ychwanegol yn ystod teneuo, ac mae'n glir y bydd yna oblygiadau ariannol yn gysylltiedig â'r rhain. Wrth i'r strategaeth ddatblygu, darperir gwybodaeth am gostau i lywio trafodaethau ar y mesurau penodol sy'n cael eu hystyried i reoli *Campylobacter*. Fodd bynnag, ni ddaw maint y costau i'r amlwg nes bod y mesurau hyn wedi'u datblygu ymhellach wrth i'r strategaeth gael ei datblygu.

Asesu'r Broses Weithredu

6.8 Dylid cael gwybodaeth am y graddau mae gwahanol agweddau'r strategaeth hon wedi eu rhoi ar waith wrth werthuso'r camau yn yr ymgyrch fioggiogelwch. Bydd trafodaeth gyda diwydiant, yn bennaf trwy'r Gr p Ymgynghorol, hefyd yn darparu adborth ar lwyddiant yr ymgyrch. Yn ogystal â phwysleisio agweddau cadarnhaol y strategaeth, dylai'r cydweithio hwn â diwydiant hefyd nodi manau sy'n achosi problemau. Bydd hefyd yn bwysig ar gyfer monitro costau gweithredu'r strategaeth a'r mesurau ynddi ac asesu'r rhain yn erbyn y manteision disgwylidig a'r rhai a gyflawnwyd.

Ymchwil

6.9 Mae llawer o waith ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol wedi'i wneud ar *Campylobacter* mewn dofednod. Bydd yr Asiantaeth yn ychwanegu at hyn trwy ariannu gwaith i ddiwallu anghenion penodol a nodwyd yn y strategaeth, ac yn cadw golwg ar waith arall a wneir yn y DU a thramor. Yn ystod y 18 mis nesaf, bydd yr Asiantaeth yn cynnal adolygiad ffurfiol o'r rhaglen waith ar ddofednod.